**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr CEINEWYDD a gynhaliwyd o bell trwy gynhadledd fideo ar nos Iau, 24 Hydref 2024**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion:** Y Cynghorydd Keith Henson (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Matthew Vaux

**Swyddogion a oedd yn Bresennol:** Rhodri Llwyd, Owen Morgan, Katy Spain a Dana Jones

**Defnyddwyr yr Harbwr**: Jennifer Davies, Julian Driver, Jonathan Price Jones, David Nicholson, Carl Rich, Chris Seal, Martin Seal, Owen Stephen Webb, NJ Robertson, Kevin Sandover, Martin Wood

(6.30pm – 7.30pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   Dim.

2. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024**
   CYTUNWYD nodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024

3. **Diweddariad am Wasanaethau Harbwr**
   Adroddwyd gan Reolwr yr Harbwr bod cyfarfod wedi cael ei drefnu yr wythnos ddilynol gyda chynrychiolwyr y clwb hwylio ynghylch y cynigion i storio'r dingis.

   Gan nad yw gwasanaeth Clic ar gael dros y penwythnos, byddai perchnogion cychod yn gallu talu am lansio yn ystod y dydd neu angori fel ymwelwyr trwy system dalu ar-lein ar wefan CS Ceredigion cyn bo hir, a oedd wedi cael ei datblygu yn ddiweddar. Byddai defnyddwyr yn gallu cael mynediad i hon ar eu ffonau symudol trwy'r wefan neu yn swyddfa'r Harbwr, a byddai cymorth yn cael ei roi gan aelod o Dîm y Gwasanaethau Harbwr, yn ôl yr angen, ar gyfrifiadur y swyddfa. Cytunwyd hefyd y byddai'r cynnig yng nghyfarfod Ymgynghori Defnyddwyr Harbwr Aberaeron yn cael ei nodi yng Nghofnodion CN fel a ganlyn:-

   *Awgrymodd defnyddwyr yr harbwr hefyd y byddai modd defnyddio gât bar cloi a fyddai'n cynnwys cod er mwyn delio â'r mater hwn, ac y byddai modd talu ar-lein gan ddefnyddio cod a anfonir i ddefnyddwyr mewn neges e-bost er mwyn cael mynediad i'r llithrfa, fodd bynnag, gallai defnyddwyr rannu'r cod a hefyd, byddai angen ystyried mynediad i'r gwasanaethau brys. Roedd eraill o'r farn bod cod QR yn ffordd ddigonol o dalu, fodd bynnag, nodwyd y bu problem gyda sticeri twyllodrus yn cael eu rhoi dros y rhai gwreiddiol a'r taliad yn cael ei anfon at gwmni/unigolyn anhysbys. Byddai Rheolwr yr Harbwr/Gwasanaeth yn ystyried yr awgrymiadau hyn.*

   Gofynnwyd a fyddai gwaredu'r cychod ar y pier yn ystod y gaeaf yn drefniant parhaol. Eglurodd Rheolwr yr Harbwr y trefniadau ar gyfer yr ardal, ac adroddodd ei fod yn drefniant parhaol, ac y gwnaethpwyd y penderfyniad o ganlyniad i bryderon ynghylch mynediad i'r pier pe byddai argyfwng, yn

enwedig pe bai angen i'r gwasanaethau brys gael mynediad i ddiwedd y pier yn ystod misoedd y gaeaf. Mae'r ardal yn cynnig mynediad i'r rhesel cychod tendio hefyd, na fydd yn rhaid ei datgymalu mwyach, a'i hailosod eto bob tymor. Nododd Chris Seal, er ei fod yn derbyn y gallai Mike Masters (trefnydd y lifft) deimlo'n siomedig am yr effaith y gallai hyn ei chael ar y trefniadau codi cychod, ei fod yn falch y byddai hyn yn galluogi'r rhesel i fod yn nodwedd parhaol.

Gan na chaniateir i gychod gael eu storio ar ran isaf y pier mwyach, adroddwyd y mynegwyd pryderon na fyddai llogi cwmni craen ar gyfer defnyddwyr y mae angen y gwasanaeth hwn arnynt, yn ddewis economaidd ymarferol yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, y gost yw £180 fesul cwch gan bod defnydd arall yn cael ei wneud o'r craen hefyd, ac mae'r arolygwr yn rhywun lleol sy'n meddu ar y cymhwyster perthnasol i gynorthwyo. Trafodwyd dyddiadau er mwyn cael craen yno a holwyd a fyddai dyddiad yn ystod y gwyliau Pasg yn addas neu'n bosibl, ac awgrymwyd y dylai'r cydlynydd ysgrifennu at yr Awdurdod Harbwr gyda'r cynigion. Nododd Rheolwr yr Harbwr y byddai'r pwyllgor Gweithgarwch a Digwyddiadau yn ystyried y cais, a phe bai'r dyddiad yn ystod y gwyliau ysgol, byddai hyn yn codi mwy o bryder o ganlyniad i'r ffaith y byddai mwy o blant yn yr ardal, fodd bynnag, byddai modd i'r pwyllgor ystyried mesurau rheoli ychwanegol yn ôl yr angen.

Gwnaethpwyd cais i adolygu'r rhesel cychod tendio trwy ei disodli neu ei gwneud yn fwy cadarn. Caiff sawl cwch tendio eu storio ar y rhesel; fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch perchnogaeth rhai o'r cychod tendio. Caiff rhai cychod tendio eu gwthio i mewn ac o ganlyniad, mae eraill sydd ar y rhesel yn barod yn cael eu difrodi. Dywedodd Rheolwr yr Harbwr y byddai'n ymweld â'r cyfleuster storio oherwydd dylent gadw at y polisi enwi cychod. Dywedodd Rheolwr yr Harbwr y byddai'r sylwadau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r cyfleuster, ond nad oes bwriad i waredu'r cyfleuster.

Mynegwyd pryderon hefyd am y ffaith mai dim ond pythefnos o rybudd yr oedd perchnogion dingis wedi ei gael i dynnu eu dingis oddi ar y traeth, a chadarnhawyd nad oes unrhyw gytundebau na chaniatâd yn ei le ar gyfer y dingis hynny a bod cyfrifoldeb ar berchnogion i storio eu dingis mewn lleoliadau lle y maent wedi sicrhau caniatâd priodol.

Codwyd pryder iechyd a diogelwch gan un o ddefnyddwyr yr harbwr ynghylch cerbydau sy'n parcio islaw swyddfa'r harbwr gan bod angen trwsio'r atalfeydd gan bod y byllt yn rhydd. Dywedodd Rheolwr yr Harbwr y byddai'n cysylltu â chydweithwyr iechyd a diogelwch i adolygu'r pryderon hyn.

Roedd y golau ar ddiwedd Penpolion wedi diffodd a phrynwyd golau newydd, ac mae angen trwsio'r rheiliau hefyd. Byddai contractwr yn cael ei benodi trwy'r broses gaffael.

Cynhaliwyd archwiliad o'r pwyntiau a'r cadwyni angori a dywedodd Rheolwr yr Harbwr ei fod yn cael cyswllt gyda'r gwasanaeth cynllunio ynghylch eu disodli o

DRAFT

ganlyniad i statws CADW y pier. Ar ôl cael ymateb, byddai'r gwaith yn cael ei gaffael yn unol â sicrhau cyllideb. Dywedodd un o ddefnyddwyr yr harbwr ei fod wedi adrodd am y ffaith bod gwaelod y cadwyni wedi rhydu. Dywedodd Rheolwr yr Harbwr y byddai'n eu harchwilio ymhellach yn ystod ei ymweliad â Cheinewydd yr wythnos ddilynol.

Codwyd mater arolygon ar Bier Ceinewydd gan un o ddefnyddwyr yr harbwr. Dywedodd Rheolwr yr Harbwr bod arolwg yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gan gydweithwyr peirianneg, a bod y pier yn destun arolygon rheolaidd a drefnir.

Mynegwyd pryderon gan ddefnyddwyr yr harbwr am y ffordd y caiff yr harbyrau eu rhedeg gan bod y niferoedd ar y rhestr aros am angorfeydd wedi gostwng yn sylweddol, ac mae 50 o leoedd ar gael yn Aberaeron a 22 o angorfeydd nad ydynt yn cael eu defnyddio yng Ngheinewydd, ac mae hyn yn cael effaith arwyddocaol ar yr incwm y mae awdurdod yr Harbwr yn ei gael. Gan ymateb, adroddodd y CLO bod y Cyngor Sir yn monitro'r sefyllfa. Fodd bynnag, fel y mae pawb yn ymwybodol, nid yw Pwll Cam yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd o ganlyniad i'r gwaith ar yr amddiffynfeydd llifogydd, ac y byddai patrwm yr angorfeydd sydd ar gael yng Ngheinewydd ac yn Aberystwyth yn cael ei asesu. Byddai unrhyw gynigion a datrysiadau yn cael eu hystyried yng ngoleuni gwybodaeth a gaiff ei choladu. Byddai Defnyddwyr yr Harbwr yn croesawu unrhyw gynigion. Adroddodd Rheolwr yr Harbwr hefyd bod y rhestr aros wedi lleihau yn unol â'r Polisi Rheoli Harbwr ac o ganlyniad, bod nifer wedi cael eu tynnu oddi ar y rhestr aros. Esboniwyd bod sawl angorfa yn wag yn Aberystwyth ac yn Aberaeron o ganlyniad i'w lleoliad, a'r ffaith bod y mynediad i'r harbwr yn annymunol.

Roedd un o ddefnyddwyr yr Harbwr wedi cael gwybod na fyddai contractwyr BAM yn gwaredu'r silt sy'n weddill ym Mhwll Cam, er bod hwn yn gyfle delfrydol i wneud hynny. Gan ymateb, dywedodd y CLO nad oedd y penderfyniad wedi cael ei wneud eto am y cais hwn, ac y byddai dadansoddiad cemegol presennol o'r silt yn cael ei sicrhau

Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau gan BAM, roedd y Cynghorydd Elizabeth Evans yn annog gweithgarwch i lansio Harbwr Aberaeron o'r newydd er mwyn denu cychod i ddychwelyd i'r harbwr, yn enwedig ym Mhwll Cam lle y mae defnyddwyr yr harbwr yn dymuno angori eu cychod.

**4. Rhestr Aros am Angorfeydd wedi'i Golygu**

Cytunwyd nodi'r rhestr aros am angorfeydd fel y'i cyflwynwyd.

**5. Cynnal a Chadw Cyffredinol a Glendid**

Roedd y cyfleuster Rheoli Gwastraff Porthladd wedi bod yn weithredol am lai na 12 mis ac roedd wedi gweithio'n dda yn ystod yr haf er mwyn cynorthwyo i gadw Ceinewydd yn lân ac yn daclus. Roedd y Cynorthwywyr Harbwr Tymhorol yn casglu sbwriel hefyd fel rhan o'u rolau.

Gwnaethpwyd cais gan berchennog cwch Masnachol i waredu olew a hidlwyr yn y cyfleuster Rheoli Gwastraff. Byddai'r cais hwn yn cael ei ystyried

DRAFT

ymhellach gan bod cyfyngiadau estynedig sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff masnachol.  Roedd sawl defnyddiwr o'r farn y byddai hwn yn gyfleuster defnyddiol ar gyfer defnyddwyr yr harbwr.

DRAFT